OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 406 (Cy.57)

PRIFFYRDD, CYMRU

Cynllun Fordd Ymuno Traffordd yr M4 (Cyffordd 44, Lô n-Las) 2003

Wedi'u wneud	- -	*26 Chwefror 2003*
Yn dod i rym	- -	*28 Mawrth 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16, 17 a 326 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**) yn gwneud y Cynllun hwn:—

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei awdurdodi i ddarparu ar hyd y llwybr a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ffordd arbennig ar gyfer defnydd traffig Dosbarth 1 ac 11 a nodir yn Atodlen 4 i Ddeddf Priffyrdd 1980.

2. Mae llinell ganol y ffordd arbennig hon wedi ei dynodi â llinell drwchus ddu dangosir fel "A" ar y plan a adneuwyd.

3. Bydd y darn o'r ffordd arbennig a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras dangosir fel "B" ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd a chaiff ei dosbarthu fel ffordd Ddi-ddosbarth o'r dyddiad y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn hysybysu Dinas a Sir Abertawe fod y ffordd arbennig newydd ar agor i draffig trwodd.

4. Yn y Cynllun hwn:—

(1) Mae pob mesur o bellter wedi'i fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(i) ystyr "y draffordd" ("*motorway*") yw traffordd Llundain-De Cymru (M4);

(ii) ystyr "y ffordd arbennig" ("*the special road*") yw'r briffordd a grybwyllir yn erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;

(iii) ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA16/1 NAFW 1 a elwir Cynllun Ffordd Ymuno Traffordd yr M4 (Cyffordd 44, Lôn-Las) 2003, ac sydd wedi ei lofnodi ar ran y Gweinidog dros yr Amgylchedd ac wedi'i adneuo drwy awdurdod Storfa ac Adferiad Cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (RSRU) Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

5. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 28 Mawrth 2003 a'i enw yw Cynllun Ffordd Ymuno Traffordd yr M4 (Cyffordd 44, Lôn-Las) 2003.

(**1**) 1980 p.66
(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddwyd y pwerau hyn bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru